

Mae'r erfinen (swêd) (*Brassica napobrassica* neu *Brassica napus* var *napobrassica*) yn llysiuyn gwydn sy'n gweddu'n dda i'r amodau tamp, claeaf a geir yn aml yng Nghymru. Nid oes angen rhoi fawr iawn o sylw i erfin a gellir eu cadw yn y ddaear dros y gaeaf.

SAFLE

Mae angen pridd sydd wedi'i ddraenio'n dda ond sy'n llaith ar gyfer erfin. Gellir eu tyfu mewn llawer math gwahanol o bridd, ond ar bridd cleiog, sydd wedi'i strwythuro'n dda y byddant yn ffynnu orau. Bydd cynnwys deunydd organig wedi pydru'n drwyadl yn helpu gyda strwythur y pridd a chadw lleithder.

Er bod erfin yn tyfu'n dda mewn priddoedd sydd ychydig yn asidaidd, mae asidrwydd yn cynyddu'r perygl o glwy'r gwraidd clap. Felly, mae angen i'r pH fod uwchben pH6.5. Ond mae angen sicrhau cydbwysedd iawn er mwyn osgoi rhoi gormod o galch a chloi microfaethion i mewn felly.

Mae erfin yn rhan o'r grŵp Brassica. Mae cylchdroi cnydau'n hollbwysig i'r grŵp hwn ac ni ddylai erfin neu faip gael eu tyfu ar safle ble mae Brassica arall wedi cael eu tyfu o fewn pum mlynedd.

AMRYWIAETHAU

Caiff erfin eu categoreiddio yn ôl lliw'r croen ar dop y gwreiddyn storio. Rhai topiau piws sydd fwyaf cyffredin, ond mae rhai topiau lliw efydd a gwyrdd i'w cael hefyd. Dewiswch liw sy'n addas ar gyfer eich safle a'ch marchnad.

Mae gwahanol fathau o erfin ar gael, rhai ohonynt (e.e. Ruby, Marian) y profwyd eu bod yn gallu gwrthsefyll rhai heintiau cyffredin, yn arbennig llwydni blewog. Mae gwahaniaethau, er mai bach iawn ydynt weithiau, o ran blas, ansawdd ac edrychiad gwahanol fathau, a'r amser a gymerant i aeddfedu, ac eto dylech ddewis gyda'ch safle a'ch marchnad mewn golwg.

PLANNU

Fel arfer mae erfin prif gnwd yn cael eu hau'n uniongyrchol mewn dril drwy fis Mehefin a dechrau Gorffennaf fel bod y cnwd yn aeddfedu wrth i'r tywydd oeri at yr hydref. Bydd y bylchiadau wrth hau yn pennu maint y cnwd terfynol: os bydd y bylchiadau'n nes at ei gilydd bydd y gwreiddiau'n llai. Y gwreiddiau llai hyn (tua 15cm ar draws) sydd fwyaf poblogaidd ymhlith cwsmeriaid ar y funud. Er mwyn cael y rhain, dylech hau had wedi'i raddio fesul 10cm o fewn y rhes a 50cm rhwng rhesi. Os bydd y cnwd yn cael ei gynaeafu'n fecanyddol dylid plannu ar sail system wely. Nid oes angen hyn ar gyfer cnwd fydd yn cael ei gynaeafu â llaw.

MAETH

Nid oes angen llawer iawn o wrtaith ar gyfer erfin. Mae ansawdd y gwreiddiau'n aml yn well ac yn fwy cyson pan fo'r cnwd yn tyfu'n gyson a chymedrol, yn hytrach nag yn gyflym. Mae Tabl 1 yn dangos argymhellion gwrtaith Defra ar gyfer erfin neu swêds prif gnwd. Dylid rhoi'r gwrtaith cyn defnyddio'r dril.

Mae maip yn dueddol iawn o ddiodef o ddiffyg boron, sy'n ei arddangos ei hun yn y gwraidd fel calon frown ac yn llawn dŵr. Mewn achosion drwg iawn, bydd y croen yn troi'n arw ac yn anwastad. Mae'r boron sydd ar gael yn gostwng yn sylweddol uwchlaw pH7, ac felly mae angen cymryd gofal wrth roi calch a gallai dalu i gael dadansoddiad pridd arbennig.

Tabl 1 – Argymhellion gwrtaith ar gyfer maip prif gnwd o RB209

	Mynegai SNS, P, K neu Mg						
	0	1	2	3	4	5	6
				kg/ha			
Nitrogen	150	100	50	0	0	0	0
Ffosffad (P ₂ O ₅)	200	150	100	50	0	0	0
Potash (K ₂ O)	300	250	200(2-) 150(2+)	60	0	0	0
Magnesiwm (MgO)	150	100	0	0	0	0	0

Ffynhonnell: Defra – Argymhellion gwrtaith ar gyfer cnydau amaethyddol a garddwriaethol (RB209)

RHEOLAETH

Mae rheoli chwyn yn her fawr gyda phob math o brassica. Y cyngor safonol bob amser yw osgoi safleoedd lle mae gormodedd o chwyn. Lle nad yw hyn yn bosib, mae'n bosib y bydd yn rhaid gwneud llawer o waith chwynnu â llaw, yn arbennig lle ceir chwyn gwydn yn perthyn i deulu'r Cruciferae. Mae cynhyrchion wedi'u trwyddedu i reoli chwyn cyffredin eraill – edrychwch ar wefan y Gyfarwyddiaeth Diogelwch Plaleiddiaid (Pesticides Safety Directorate) – www.pesticides.gov.uk.

PLÂU A CHLEFYDAU

Mae erfin yn gallu dioddef gan amrywiaeth eang o blâu a chlefydau, fel y mae brassicas eraill. Mae'r canlynol yn arbennig o bwysig :

Llwydni blewog (*Erysiphe cruciferarum*) – mae amrywiaethau sy'n gallu gwrthsefyll hwn i raddau ar gael. Mae ffwngleiddiad ar gael.

Mae pryfed bresych (*Delia radicum*) yn un o'r prif blâu ar erfin. Nid oes unrhyw bryfleiddiaid wedi'u cymeradwyo ar hyn o bryd i reoli'r pla hwn mewn erfin neu swêds. Mae rhai tyfwyr yn ceisio rheoli'r broblem drwy ddefnyddio gorchuddion dros y cnwd, e.e. wondermesh. Y broblem gyda hyn yw y gallai larfa sy'n gaeafu fod wedi'u dal o fewn y gorchudd. Mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu y gallai manteision defnyddio gorchudd orbwysu'r peryglon.

Gall y chwilen naid (*Phyllotreta* spp.) ddifetha cnwd wrth iddo ymddangos. Mae plaleiddiaid ar gael.

CYNHAEAF

Dechreuir cynaeafu pan fydd yr erfin tua 15cm ar draws. Gellir cynaeafu'n fecanyddol neu â llaw: cynaeafu â llaw sydd fwyaf cyffredin ar gyfer unedau ar raddfa lai ac mae'n sicrhau cynnyrch o ansawdd uchel. Y gost yw'r anfantais.

STORIO

Unwaith y maen nhw wedi cael eu codi, mae erfin yn colli lleithder yn gyflym, ond maen nhw'n cadw'n dda yn y ddaear. Os nad oes cyfleusterau storio arbenigol ar gael, mae'n well codi'r cnwd yn ôl yr angen, yn hytrach na cheisio'i storio. Bydd erfin yn cadw am tua

FFIN ELW DANGOSOL AR GYFER CYNHYRCHU UN HECTAR O FAIP

	Eitem	Swm	£/Uned	£ Cyfanswm
Cynnyrch				
Gwerthiant Cnydau	tunnell	25	200	5,000
			Cyfanswm Cynnyrch	5,000
Costau				
Llafur Achlysurol	Drilio	12awr	6.00	72
	Cynaeafu	100awr		600
Llafur Cytundeb	Chwistrellu	1	89.00	89
	Gwrteithio	1	25.00	25
	Trin	1	70.00	70
Costau Gwrtaith	Gwrtaith	1	80.00	80
Costau Eraill	Deunydd Pacio	5000	0.25	1250
Costau Hadau	Hadau	1	40.00	40
Cost Chwistrellu	Pla-/Chwynladdwyr	1	200.00	200
			Cyfanswm Costau	2,426
			Ffin Elw Gros	£2,574



Er y gwneir pob ymdrech i sicrhau fod y wybodaeth a roddir yn y daflen hon yn gywir, ni ellir dal CALU yn gyfrifol am ganlyniadau unrhyw gamau a gymerir ar sail ei chynnwys. CALU yw'r Ganolfan Ddatblygu ar gyfer garddwriaeth, biomas, cnydau newydd, coedlannau fferm a da byw newydd yng Nghymru. Noddir CALU gan Lywodraeth Cynulliad Cymru fel rhan o Cyswilt Ffermio

www.calu.bangor.ac.uk

CALU – Yn Cefnogi Defnyddio Tir yn Gynaliadwy